# Cefnogi myfyrwyr lywodraethwyr mewn colegau

Mae'r canllaw hwn yn rhagarweiniad i bopeth sydd ei angen arnoch i roi cefnogaeth i fyfyrwyr lywodraethwyr mewn colegau. P'un a ydych chi wedi bod yn gweithio gyda byrddau coleg a myfyrwyr lywodraethwyr ers tro neu'n dechrau arni, mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg trylwyr o sut i gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr lywodraethwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu bwrdd ac o fewn y coleg yn ehangach.

Mae’r canllaw hwn yn ymdrin â’r canlynol:

- Rôl y myfyriwr lywodraethwr
- Y cyd-destun ehangach
- Cyfrifoldebau a disgwyliadau myfyrwyr lywodraethwyr
- Heriau cyffredin a wynebir gan fyfyrwyr lywodraethwyr
- Helpu myfyrwyr lywodraethwyr i fod yn llwyddiannus
- Cefnogaeth gychwynnol a pharhaus
- Penodi myfyrwyr lywodraethwyr
- Y cyfarfod llywodraethwyr delfrydol – o safbwynt myfyriwr lywodraethwr
- Gwybodaeth bellach

## Rôl y myfyriwr lywodraethwr

Dysgwr a etholir i gynrychioli buddiannau’r corff myfyrwyr ar gorff llywodraethu coleg AB yw myfyriwr lywodraethwr. Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn darparu mewnwelediadau hanfodol i brofiad y dysgwr, gan amlygu safbwyntiau rhanddeiliaid pwysicaf y coleg – y dysgwyr. Mae eu presenoldeb yn sicrhau bod lleisiau dysgwyr yn cael eu clywed mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf. Gallant ganolbwyntio ar unrhyw bynciau sy'n berthnasol i ddysgwyr, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bolisïau'r coleg, datblygiadau ar y campws, a newidiadau i'r cwricwlwm.

**Sut mae myfyrwyr lywodraethwyr yn wahanol i lywodraethwyr eraill:** yn wahanol i lywodraethwyr eraill, rhaid i fyfyrwyr lywodraethwyr ddod o gorff myfyrwyr y coleg. Cânt eu penodi am flwyddyn fel arfer, tra bod llywodraethwyr eraill yn aml yn y rôl am gyfnod o dair blynedd.

O ran hawliau pleidleisio, fel arfer mae myfyrwyr lywodraethwyr yn gyfartal â llywodraethwyr eraill, ac eithrio yn achos trafodaethau am gyflogau uwch staff a materion cyflogaeth. Mae’n bosib y gofynnir iddynt adael yr ystafell ar gyfer yr eitemau hynny ar yr agenda.

Mae'r gwahaniaethau hyn fel arfer yn cael eu hamlinellu yn nogfennau llywodraethu'r coleg - gelwir dogfennau allweddol yn aml yn *Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu, Rheolau Sefydlog,* a *Chynllun Dirprwyo.* Dylai fod gan staff sy'n cynorthwyo myfyrwyr lywodraethwyr fynediad at y rhain, a dylent eu darllen i gael dealltwriaeth lawn o'r hyn a ddisgwylir gan fyfyrwyr lywodraethwyr yn y coleg.

Yn y rhan fwyaf o ffyrdd eraill, mae myfyrwyr lywodraethwyr yn aelodau cyfartal o'r bwrdd llywodraethu.

**Y cyd-destun ehangach**

Mae **Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach (2021-2026)** Llywodraeth Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd cynnwys myfyrwyr mewn llywodraethiant, gan nodi bod eu cyfranogiad yn cyfoethogi bywyd y coleg i bawb.

Mae'r **Côd Llywodraethiant Da ar gyfer Colegau yng Nghymru** yn cynnig cyfeiriad pellach, gan amlygu'r angen am fyfyrwyr lywodraethwyr ar lefel bwrdd. Mae'n pwysleisio y dylid penodi myfyrwyr lywodraethwyr trwy *broses ffurfiol, agored a thryloyw*. Fel arfer, gwneir hyn trwy gynnal etholiad.

Mae gan y rhan fwyaf o golegau yng Nghymru o leiaf ddau fyfyriwr lywodraethwr, ac fel arfer caiff y swyddi hyn eu hystyried yn rhan annatod o eco-system ehangach llais y dysgwr (ynghyd â chynrychiolwyr dysgwyr, llysgenhadon, a swyddogion etholedig).

Mae'r canllaw hwn yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i'r rhai sy'n gweithio gyda myfyrwyr lywodraethwyr, gan gynnwys syniadau ymarferol ac astudiaethau achos. Fe'i cynlluniwyd i helpu staff i sicrhau llwyddiant y rôl, er budd y coleg a'r unigolion dan sylw.

**Cyfrifoldebau a Disgwyliadau Myfyrwyr Lywodraethwyr**

**1. Cynrychioli'r Corff Myfyrwyr:** Prif gyfrifoldeb myfyriwr lywodraethwr yw cynrychioli buddiannau'r corff myfyrwyr. Maent yn llais ar ran myfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel uchaf y coleg. Mae hyn yn golygu deall pryderon, anghenion a dyheadau myfyrwyr a chyfleu'r rhain i'r corff llywodraethu.

Disgwylir i fyfyriwr lywodraethwr:

- Fod yn hygyrch i fyfyrwyr a chasglu eu barn.
- Adlewyrchu amrywioldeb y corff myfyrwyr a sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli.
- Gwrando'n weithredol a chyfleu adborth myfyrwyr i'r bwrdd.
- Gweithredu er lles gorau'r coleg bob amser.

**2. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd bwrdd a'r broses o wneud penderfyniadau:** Disgwylir i fyfyrwyr lywodraethwyr fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu yn rheolaidd a chymryd rhan weithredol mewn trafodaethau. Er ei bod yn bosib nad oes gan fyfyrwyr lywodraethwyr arbenigedd ym mhob maes sy'n perthyn i lywodraethiant, disgwylir iddynt ddeall prosesau'r corff llywodraethu a chyfrannu at drafodaethau'n ystyrlon. Mae hyn yn golygu bod yn gyfarwydd â chynllun strategol, materion ariannol a pholisïau'r coleg.

Yn aml mae gan fyfyrwyr lywodraethwyr ddiddordeb arbennig mewn pynciau fel:

- Lles myfyrwyr: cymorth iechyd meddwl, diogelwch a llesiant.
- Materion academaidd: datblygu'r cwricwlwm, dulliau asesu, a mecanweithiau adborth.
- Gwasanaethau myfyrwyr: cymorth i fyfyrwyr, cyngor gyrfaoedd, a gweithgareddau allgyrsiol.

Wedi dweud hynny, mae'n gwbl dderbyniol i fyfyriwr lywodraethwr ymwneud ag unrhyw eitem ar yr agenda.

**3. Sicrhau atebolrwydd a thryloywder:** Er mai'r corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd sydd ag atebolrwydd cyffredinol, mae myfyrwyr lywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod safbwyntiau myfyrwyr yn cael eu hystyried a bod penderfyniadau allweddol yn cael eu cyfleu'n effeithiol. Yn y bôn, helpu i adeiladu pont rhwng y bwrdd a'r corff astudio.

Disgwylir i fyfyrwyr lywodraethwyr:

- Gynorthwyo â chyfathrebu clir rhwng y corff llywodraethu a'r corff myfyrwyr ehangach.
- Cefnogi ymdrechion i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am faterion llywodraethiant allweddol, gan weithio gyda chynrychiolwyr myfyrwyr, undeb y myfyrwyr, neu arweinyddiaeth y coleg.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o rolau myfyrwyr lywodraethwyr a sut i ymgysylltu â nhw.

**4. Cyfrinachedd ac ymddygiad moesegol:** Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn rhwym i'r un cytundebau cyfrinachedd a safonau moesegol ag aelodau eraill y bwrdd. Mae hyn yn golygu cynnal cyfrinachedd ynghylch gwybodaeth sensitif a drafodir mewn cyfarfodydd bwrdd a gweithredu gydag uniondeb a phroffesiynoldeb bob amser.

*Er y gall yr egwyddorion hyn fod yn gyfarwydd iawn i rywun sydd â gyrfa broffesiynol, byddant yn newydd sbon i lawer o ddysgwyr (ychydig iawn o brofiad proffesiynol fydd gan y rhan fwyaf ohonynt).*

## Heriau cyffredin a wynebir gan fyfyrwyr lywodraethwyr

Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn wynebu sawl her allweddol, gan gynnwys cydbwyso cyfrifoldebau academaidd a llywodraethiant, llywio deinameg pŵer, a chynrychioli buddiannau myfyrwyr amrywiol. Er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau, mae angen cefnogaeth gref arnynt trwy hyfforddiant, mentora ac adnoddau gwybodaeth.

Trwy fynd i'r afael â'r heriau hyn, gall colegau sicrhau bod myfyrwyr lywodraethwyr yn parhau i fod wedi'u grymuso i eirioli dros y corff myfyrwyr a chyfrannu'n ystyrlon at lywodraethiant eu sefydliadau.

**Cydbwyso gwaith academaidd a chyfrifoldebau llywodraethiant:** Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol y mae myfyrwyr lywodraethwyr yn ei hwynebu yw rheoli eu llwyth gwaith academaidd tra'n cyflawni gofynion eu rôl lywodraethiant, yn ogystal â chydbwyso cyfrifoldebau eraill o bosib, fel gwaith rhan-amser neu ofalu. Mae mynychu cyfarfodydd, paratoi ar gyfer trafodaethau, a chynrychioli buddiannau myfyrwyr yn cymryd amser ac egni, gan arwain at straen neu anhawster wrth reoli'r naill rôl a'r llall yn effeithiol.

**Diffyg profiad a gwybodaeth am lywodraethiant:** Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn aml yn ymgymryd â'u rolau heb brofiad blaenorol o lywodraethiant na phrosesau gwneud penderfyniadau'r coleg. Gall deall sut mae corff llywodraethu'n gweithredu, dehongli dogfennau ariannol, neu lywio trafodaethau polisi fod yn llethol i fyfyrwyr heb gefndir yn y meysydd hyn. Gall y diffyg profiad hwn effeithio ar eu hyder a'u heffeithiolrwydd yn y rôl.

**Llywio deinameg pŵer:** Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn rhan o strwythur llywodraethiant ehangach sy'n cynnwys uwch reolwyr ac aelodau eraill o staff; yn naturiol, bydd gan y rhan fwyaf ohonynt fwy o brofiad ac awdurdod. Gall deinameg pŵer cymdeithasol fod ar waith yma hefyd – i berson ifanc sy'n astudio cwrs galwedigaethol, gall y syniad o anghytuno â dyn canol-oed hyderus mewn swydd arweinyddiaeth ymddangos yn hynod frawychus. Gall hyn greu heriau o ran y canfyddiad o fyfyrwyr lywodraethwyr a'u gallu i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau. Yn aml, rhaid i fyfyrwyr lywodraethwyr ddysgu sut i fynegi eu barn yn effeithiol, tra bod aelodau eraill o'r bwrdd yn cydweithio i greu amgylchedd cynhwysol sy'n deall y ddeinameg sydd ar waith.

**Cynrychioli corff myfyrwyr amrywiol:** Rhaid i fyfyrwyr lywodraethwyr gynrychioli safbwyntiau a buddiannau amrywiaeth eang o fyfyrwyr, gan gynnwys y rheini sydd â gwahanol anghenion academaidd, cefndiroedd diwylliannol ac amgylchiadau personol. Gall y cyfrifoldeb hwn fod yn heriol, yn enwedig pan fo buddiannau'n gwrthdaro o fewn y corff myfyrwyr. Gall fod yn anodd cydbwyso'r anghenion cystadleuol hyn yn effeithiol a sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo ei fod yn cael ei gynrychioli, yn enwedig pan fo myfyrwyr lywodraethwyr yn y lleiafrif.

**Delio â materion sensitif:** mae'n bosib y bydd yn rhaid i fyfyrwyr lywodraethwyr fynd i'r afael â phynciau sensitif ac anodd, fel cymorth iechyd meddwl, ffioedd dysgu, neu les myfyrwyr, a all fod yn emosiynol neu'n gynhennus. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am lawer iawn o ddiplomyddiaeth, doethineb, a deallusrwydd emosiynol. Gallant hefyd wynebu gwrthwynebiad gan uwch reolwyr neu lywodraethwyr eraill, yn

enwedig os yw newidiadau arfaethedig yn peri heriau ariannol neu ymarferol i'r sefydliad.

**Awdurdod cyfyngedig wrth wneud penderfyniadau:** Mewn llawer o strwythurau llywodraethiant, nid oes gan fyfyrwyr lywodraethwyr hawliau pleidleisio cyfartal o gymharu ag aelodau eraill y bwrdd. Neu efallai bod ganddyn nhw farn cwbl wahanol i aelodau eraill y bwrdd. Gall hyn arwain at deimladau o rwystredigaeth, yn enwedig os ydynt yn teimlo nad yw eu mewnbwn yn cael ei werthfawrogi neu ei ystyried yn llawn. Efallai y byddant yn ei chael yn anodd rhoi newid ar waith neu ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol ar faterion arwyddocaol fel cyllidebau, polisïau'r coleg, neu nodau strategol hirdymor.

**Iechyd meddwl a llesiant:** Weithiau gall y baich emosiynol o fod yn fyfyriwr lywodraethwr effeithio ar iechyd meddwl. Gall pwysau llywodraethiant, delio â materion heriol, a chydbwyso cyfrifoldebau beri straen. Ar ben hynny, myfyrwyr lywodraethwyr yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer myfyrwyr sy'n ceisio cymorth ar faterion sensitif, fel iechyd meddwl, a rhaid iddynt fod yn gymwys i reoli'r trafodaethau hyn tra'n cynnal eu llesiant eu hunain.

## Helpu myfyrwyr lywodraethwyr i fod yn llwyddiannus: gwybodaeth a sgiliau allweddol

Mae bod yn fyfyriwr lywodraethwr dylanwadol yn gofyn am wybodaeth a sgiliau eang. Yn amlach na pheidio, ni fydd myfyrwyr yn meddu ar y rhain pan gânt eu cadarnhau gyntaf yn eu rôl, fel arfer oherwydd eu diffyg profiad proffesiynol.

Mae'n hanfodol bod y coleg yn rhoi pob cymorth i lywodraethwyr ddeall eu rolau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud yn dda. Er bod pob dysgwr yn wahanol, mae'n well rhagdybio nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth.

**Gwybodaeth** – mae angen i fyfyrwyr lywodraethwyr wybod:

- Beth yw llywodraethiant bwrdd, sut mae'n gweithredu, eu rôl benodol nhw a rôl aelodau eraill.
- Sut mae pwyllgorau'n gweithredu - y normau, disgwyliadau, terminoleg, e.e. y defnydd o dermau megis UFA, galw'r cadeirydd yn "gadeirydd", pwysigrwydd cofnodion, yr angen i ddarllen y gwaith papur, a.y.b.
- Dogfennau allweddol y coleg, fel cynllun strategol, adroddiadau ariannol, a pholisïau'r coleg.
- eu cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol, gan gynnwys cyfrinachedd ac atebolrwydd.

**Sgiliau** – byddai hyfforddiant ar y meysydd sgiliau canlynol o fudd i unrhyw fyfyriwr lywodraethwr sydd newydd ei benodi:

**Sgiliau cyfathrebu**: mae cyfathrebu clir ac effeithiol yn hanfodol. Mae angen i fyfyrwyr lywodraethwyr allu:

- Cynrychioli barn myfyrwyr yn glir mewn cyfarfodydd bwrdd.
- Hwyluso trafodaethau rhwng myfyrwyr a'r corff llywodraethu.
- Cyfleu gwybodaeth gymhleth o gyfarfodydd bwrdd yn ôl i'r corff myfyrwyr mewn ffordd ddealladwy.
- Gwrando'n astud ar bryderon a barn eu cyd-fyfyrwyr.

**Sgiliau Arweinyddiaeth:** Mae myfyrwyr lywodraethwyr yn arweinwyr eu cyfoedion, ac felly, dylent feddu ar:

- Sgiliau gwneud penderfyniadau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ar ran y corff myfyrwyr.
- Hyder i siarad mewn cyfarfodydd, hyd yn oed ar bynciau heriol.
- Y gallu i ddylanwadu a darbwyllo i eirioli dros fuddiannau myfyrwyr o fewn y corff llywodraethu.
- Y gallu i gymell ac ennyn diddordeb myfyrwyr eraill yng ngweithgareddau a llywodraethiant y coleg.

**Sgiliau trefnu a rheoli amser**: mae llywodraethwyr yn aml yn gorfod cydbwyso gwahanol gyfrifoldebau, felly mae sgiliau trefnu a rheoli amser da yn hanfodol. Mae angen i fyfyrwyr lywodraethwyr fod yn gallu:

- Cydbwyso eu llwyth gwaith academaidd â gofynion y rôl lywodraethu.
- Rheoli amserlenni, agendâu, a therfynau amser ar gyfer cyfarfodydd a thasgau.
- Blaenoriaethu tasgau ar sail eu pwysigrwydd i'r corff myfyrwyr.

**Meddwl yn feirniadol a datrys problemau**: Mae angen i fyfyrwyr lywodraethwyr allu meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys:

- Asesu sefyllfaoedd yn wrthrychol ac ystyried gwahanol safbwyntiau.
- Dadansoddi polisïau, strategaethau a chyllidebau o safbwynt y myfyriwr.
- Datblygu datrysiadau ar gyfer heriau sy'n effeithio ar y corff myfyrwyr, megis dyrannu adnoddau, pryderon lles, neu gymorth academaidd.

**Sgiliau rhyngbersonol**: mae meithrin perthynas gref â llywodraethwyr eraill, aelodau staff, a myfyrwyr yn hanfodol. Mae sgiliau rhyngbersonol allweddol yn cynnwys:

- Meithrin perthynas ag amrywiaeth o unigolion (e.e. rheolwyr coleg, myfyrwyr eraill, rhanddeiliaid allanol).
- Gweithio'n dda mewn amgylchedd tîm, yn enwedig mewn strwythur llywodraethiant cydweithredol.
- Dangos cydymdeimlad a dealltwriaeth wrth fynd i'r afael â phryderon myfyrwyr eraill.

**Sgiliau diplomyddiaeth a chyd-drafod**: yn aml mae'n rhaid i fyfyriwr lywodraethwr gydbwyso buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae sgiliau diplomyddiaeth a chyd-drafod yn bwysig ar gyfer:

- Bod yn gyfryngwr ar gyfer trafodaethau rhwng myfyrwyr a staff neu rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr.
- Sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, tra'n negodi deilliannau sydd o fudd i'r corff myfyrwyr ehangach.
- Cynnal proffesiynoldeb, yn enwedig mewn sefyllfaoedd heriol neu pan fo gwrthdaro.

Gall fod yn ddefnyddiol mynd trwy ddogfen ar ffurf archwiliad sgiliau i nodi meysydd cryfder a meysydd i'w datblygu ar gyfer myfyrwyr lywodraethwyr, lle gellir darparu cymorth yn y meysydd lle mae ei angen fwyaf. Mae gan Elusen UCM Archwiliad Sgiliau Swyddogion, sy'n cwmpasu llawer o'r un meysydd a nodir uchod, a gellir ei ddefnyddio fel arf ar gyfer trafod a blaenoriaethu gyda'ch myfyrwyr lywodraethwyr. Gellir ailadrodd y broses hon hefyd yn agos at ddiwedd eu cyfnod yn y rôl i gynorthwyo llywodraethwyr i ddeall y cynnydd y maent wedi'i wneud, ac er mwyn gallu amlygu a siarad am y sgiliau y maent wedi'u dysgu a'r wybodaeth y maent wedi'i meithrin fel rhan o'u rôl ar gyfer eu cyflogadwyedd yn y dyfodol.

## Cefnogaeth gychwynnol a pharhaus

Yn ogystal â'r anghenion hyfforddiant a amlinellir uchod, mae sawl ffordd arall o gynnig cymorth i fyfyrwyr lywodraethwyr cyn ac yn ystod eu cyfnod ar y bwrdd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

**Sefydlu trylwyr**: er eu bod efallai wedi sefyll etholiad ac yn teimlo eu bod yn deall y coleg, mae'n bwysig bod llywodraethwyr newydd yn cael eu cyflwyno i bob agwedd allweddol ar y sefydliad.

Mae rhai colegau'n defnyddio clerc y bwrdd i gyflwyno hyn; mae eraill yn defnyddio staff llais y dysgwr. Mae'n bwysig mai ymdrech ar y cyd yw hon, felly er enghraifft, os yw'r rhan fwyaf o weithgarwch y dysgwr yn dod o dan lais y dysgwr, mae'r staff hynny'n ymwybodol o'r hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno gan glerc y bwrdd. Mae'n sicrhau bod negeseuon yn gyson, ac nad yw adnoddau'n cael eu dyblygu.

**Bod â rhywun y gellir mynd ato**: mae'n hollbwysig bod ag aelod o staff y gall y myfyriwr lywodraethwr fynd ato ar gyfer cwestiynau *"Does mo'r fath beth â chwestiwn gwirion"*. Yn aml, y clerc yw'r person yma, ond weithiau gall fod yn rhywun sy'n gweithio yn llais y dysgwr. Mae'n bwysig bod y person hwn yn gysylltiedig â gweithgareddau'r bwrdd er mwyn iddo allu ateb cwestiynau penodol am agendâu, deinameg a threfniadau ymarferol. Efallai y bydd angen cymorth ar fyfyrwyr lywodraethwyr i ddeall cynnwys papurau bwrdd er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ar lefel bwrdd. Dylai fod yna aelod o staff y gellir ymddiried ynddo i gyflawni'r swyddogaeth hon, er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn cael y gorau o'u myfyrwyr lywodraethwyr.

*Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot: gall rheolwr llais y dysgwr fynychu cyfarfodydd bwrdd gyda'r myfyrwyr lywodraethwyr. Maent yno fel cymorth yn unig, ond gallant weld y papurau a helpu'r myfyrwyr lywodraethwyr i baratoi ymlaen llaw ac ymgysylltu ar y diwrnod.*

**Rhoi gwybod i gyd-aelodau'r bwrdd:** gall fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i aelodau eraill o'r bwrdd am rôl y myfyriwr lywodraethwr a'u hannog i ystyried pa mor anesmwyth y gallai cyfarfod bwrdd fod i fyfyriwr lywodraethwr. Mae croeso cynnes ar ddechrau cyfarfod, yn ogystal â rhywfaint o fân-siarad cyfeillgar yn ystod unrhyw egwyl, yn gallu gwneud y prosesau'n llawer mwy cyfforddus iddynt. Mae'n bwysig bod y cadeirydd hefyd yn ymwybodol o'r ddeinameg hon ac yn mynd ati i geisio mewnbwn gan fyfyrwyr yn ystod y cyfarfod, oherwydd gallent fod yn nerfus i godi eu llais eu hunain, yn enwedig ar y dechrau.

**Mentora a chymorth gan gymheiriaid:** gall myfyrwyr lywodraethwyr gael eu paru â mentor profiadol, naill ai o'r corff llywodraethu neu arweinyddiaeth y coleg. Gall y mentor hwn wneud y canlynol:

- Cynnig arweiniad ar arferion gwneud penderfyniadau a llywodraethiant.
- Helpu myfyrwyr lywodraethwyr i lywio materion cymhleth a rhoi mewnwelediad i'r broses lywodraethu.
- Gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer syniadau a phryderon a allai fod gan y myfyriwr lywodraethwr.
- Cynnal rhag-gyfarfodydd cyn prif gyfarfodydd y bwrdd i drafod materion a phapurau.

Os oes mwy nag un myfyriwr lywodraethwr, gall eu hannog i ddod at ei gilydd i drafod materion gyda chymheiriaid fod yn ddefnyddiol hefyd. Efallai nad ydynt yn adnabod ei gilydd, felly ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd hyn yn digwydd yn naturiol.

**Cefnogaeth ar gyfer llesiant**: gall gwasanaethu fel myfyriwr lywodraethwr beri straen weithiau, ac mae'n bwysig i golegau ddarparu cymorth llesiant. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnig adnoddau rheoli straen a chefnogaeth i fyfyrwyr lywodraethwyr.
- Annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith trwy ddarparu canllawiau ar sut i reoli eu llwyth gwaith academaidd ochr-yn-ochr â chyfrifoldebau llywodraethiant.
- Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl os oes angen, yn ogystal â rhwydweithiau cefnogaeth sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol.
- Un pwynt cyswllt, fel arfer y cadeirydd neu aelod o staff llywodraethiant, y gallant siarad â nhw os ydynt yn teimlo'n ansicr ynghylch unrhyw agwedd ar eu rôl.

**Cyfleoedd rhwydweithio:** dylid annog myfyrwyr lywodraethwyr i ymgysylltu â chynrychiolwyr myfyrwyr eraill ar lefelau rhanbarthol neu genedlaethol. Gallai hyn gynnwys:

- Mynychu cynadleddau neu fforymau llywodraethiant myfyrwyr i ddysgu gan sefydliadau eraill a rhannu arferion gorau
- Rhwydweithio â myfyrwyr lywodraethwyr o golegau eraill yng Nghymru neu ar draws y DU, gan wella eu gallu i gynrychioli myfyrwyr yn fwy effeithiol.

**Penodi myfyrwyr lywodraethwyr**

Mae penodi myfyrwyr lywodraethwyr yn cynnwys cyfuniad o gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, arferion llywodraethiant da, a chynwysoldeb. Disgwylir y bydd gan golegau broses sy'n dryloyw ac yn hygyrch.

**Proses ar gyfer dethol ac arfer da:** Fel arfer, caiff myfyrwyr lywodraethwyr eu penodi trwy broses ddemocrataidd, gan sicrhau tryloywder a thegwch. Mae hynny'n cael ei ystyried yn arfer da.

Weithiau mae'r etholiadau hyn yn gysylltiedig ag etholiadau ar gyfer swyddogion, ond weithiau gan fod hon yn rôl ar wahân, cynhelir etholiad ar wahân. Er enghraifft:

- Coleg Caerdydd a'r Fro: mae ganddynt bedwar swyddog etholedig, ac mae'r ddau swyddog sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau hefyd yn dod yn fyfyrwyr lywodraethwyr y coleg.
- Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot: mae ganddynt ddau swyddog etholedig, ac mae'r ddau hefyd wedyn yn dod yn fyfyrwyr lywodraethwyr.
- Mae Coleg Gwent wedi rhannu rolau swyddogion a myfyrwyr lywodraethwyr fel eu bod yn gwbl ar wahân, a chynhelir dau etholiad gwahanol.

Nid yw'r naill ddull na'r llall yn gywir nac yn anghywir. Gall y rolau fod yn dra gwahanol – gall un yn fwy gweithredol a'r llall â ffocws cyfreithiol, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar eich coleg a'r diwylliant sy'n perthyn i lais y dysgwr. Os gofynnwch i ddysgwr wisgo'r ddwy het wahanol hyn, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw hyfforddiant a phroses sefydlu.

**Cynwysoldeb ac Amrywioldeb.** Pa bynnag ddull a ddewiswch, dylech ganolbwyntio ar gydraddoldeb a mynediad. Efallai y bydd rhai grwpiau o ddysgwyr, yn union fel o fewn cymdeithas, yn fwy hyderus wrth gynnig eu hunain ar gyfer etholiad. Dylech gymryd camau i annog ymgysylltiad gan bob grŵp a chymuned, a thrafod pa rwystrau posibl a allai wynebu ystod eang o fyfyrwyr i sicrhau cynrychiolaeth eang.

***Coleg Sir Benfro**: yn 2022/23 adnewyddodd y coleg ei ddull o gynnal etholiadau llywodraethwyr myfyrwyr. Â'r nod o gynyddu ymgysylltiad dysgwyr yn yr etholiad ar gyfer Myfyrwyr Lywodraethwyr a chodi proffil y rôl yn gyffredinol, trefnwyd yr etholiadau ar gyfer Myfyrwyr Lywodraethwyr i gyd-fynd ag Wythnos Diwtorial Gwleidyddiaeth a Gweithredu. Rhoddwyd ychydig o arian i bob ymgeisydd i gynorthwyo eu hymgyrch, ac fe'u hanogwyd i ymgyrchu.*

*Arweiniodd alinio â'r cwricwlwm, ynghyd â'r dyraniad ariannol, at yr etholiad yn creu cyffro go-iawn ar y campws, a chynyddodd ymgysylltiad dysgwyr.*

*Nod arall oedd rhoi profiad cadarnhaol i bob enwebai, gan gynnwys y rhai aflwyddiannus. Aeth y rhan fwyaf o'r rhai a fu'n aflwyddiannus ymlaen i wneud cais am rolau eraill ar Bwyllgor Gwaith y Dysgwyr.*

## Y cyfarfod llywodraethwyr delfrydol – *o safbwynt myfyriwr lywodraethwr*

Byddai cynhwysion cyfarfod llywodraethwyr cadarnhaol ac ystyrlon, o safbwynt myfyrwyr lywodraethwyr, yn cynnwys y canlynol:

1. Maent yn gwybod beth yw eu rôl a beth a ddisgwylir ganddynt.
2. Maent yn gwybod sut mae'r coleg yn gweithio a rôl llywodraethiant o fewn hynny.
3. Maent wedi cael rhywfaint o gefnogaeth gan staff neu gymheiriaid ar y bwrdd, gan eu helpu i ddeall yr agenda a'r materion allweddol cyn y cyfarfod.
4. Maent yn adnabod y cadeirydd, a bydd eraill yn rhoi croeso cynnes iddynt.
5. Maent wedi darllen y papurau ac mae ganddyn nhw syniad o'r hyn maen nhw eisiau ei godi.
6. Maent yn teimlo'n hyderus i wneud cyfraniadau digymell ar unrhyw destun.
7. Maent yn gwybod pryd a ble mae'r cyfarfod, a gallant gyrraedd yno a chyrraedd adref.
8. Maent yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu hannog a'u gwerthfawrogi.

## Gwybodaeth bellach

Mae rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr lywodraethwyr yn fuddsoddiad gwerthfawr sydd o fudd i golegau, dysgwyr, a'r llywodraethwyr eu hunain. Trwy feithrin cynrychiolaeth gref o blith y myfyrwyr, mae colegau'n sicrhau llywodraethiant gadarn a chymuned lewyrchus i'r holl randdeiliaid. Nod y canllaw hwn yw eich helpu i gyflawni'r nodau hyn yn effeithiol.

Am ragor o wybodaeth:

1. **Fframwaith Llais y Dysgwr**: mae'r ymarfer hunan-asesu hwn yn helpu colegau i fyfyrio ar eu harferion eu hunain a dysgu am egwyddorion sylfaenol a rhagoriaeth mewn arfer.
2. **Colegau Cymru:** Mae Colegau Cymru'n cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau a gwybodaeth am lywodraethiant da; mae eu gwefan yn darparu gwybodaeth am y fframweithiau cyfreithiol, strwythurau llywodraethiant, a rôl cyrff llywodraethu o fewn y sector. Mae'r Côd Llywodraethiant Da ar gyfer Colegau yng Nghymru yn amlinellu arferion gorau ar gyfer llywodraethiant yng ngholegau AB Cymru, gan fanylu ar gyfrifoldebau llywodraethwyr, gan gynnwys myfyrwyr lywodraethwyr, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd llywodraethiant effeithiol wrth gyflawni amcanion addysgol.
3. **Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethiant a Gwybodaeth) (Cymru) 2014**: Mae'r Ddeddf yn darparu cyd-destun deddfwriaethol ar lywodraethiant sefydliadau o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru, gan gynnig mewnwelediad i'r cyfrifoldebau statudol a'r fframweithiau sy'n llywodraethu colegau AB.
4. **AU Ymlaen:** Cyhoeddodd AU Ymlaen y canllaw hwn i fyfyrwyr lywodraethwyr.

5. **"Sut mae rôl myfyriwr lywodraethwr yn cael ei deall mewn addysg bellach?"**: Mae'r papur academaidd hwn yn archwilio'r ddealltwriaeth a'r ffordd y gweithredir rôl myfyriwr lywodraethwr mewn colegau AB, gan ddarparu mewnwelediad yn seiliedig ar ymchwil i'r heriau a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r rôl.
6. A chadwch olwg ar wefan a sianeli cymdeithasol **UCM Cymru ac Elusen UCM** i gael rhagor o wybodaeth a hyfforddiant ar bopeth sy'n ymwneud â myfyrwyr lywodraethwyr.